ynddi i ddod at ei gilydd. Cynhelir hwnnw yn Y Bala nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26–27. Mae croeso cynnes i unrhyw un i fynd yno. Er ei fod yn cael ei hysbysebu fel penwythnos bydd y rhan fwyaf o bobl mae'n debyg yn mynd yno y dydd Sadwrn yn unig.

'Cyfle i gymdeithasu, i ddysgu, i addoli ac i gael hwyl. Dewch i gael eich annog a'ch arfogi.' Dyna a ddywedir ar y daflen sy'n tynnu sylw at y penwythnos hwn, 'Aduniad Llanw'.

Y Parchg Hywel Meredydd, gweinidog Capel Cildwrn, Llangefni fydd y siaradwr gwadd.

Mae croeso cynnes i bawb, ac mae'r cyfan yn addas ar gyfer pob oed gan fod gweithgareddau arbennig yn cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd. Os am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Gweinidog.

gronyn.org

Cofiwch bod Gronyn i'w weld unrhyw bryd ar wefan yr Ofalaeth. **www.gronyn.org** neu **gronyn.wordpress.com**

Mae'n dda gweld mwy o ddefnydd o'r wefan yn ddiweddar.

Cymdeithas Undebol

Bydd tymor newydd y Gymdeithas yn Neiniolen yn cychwyn nos Lun, Medi 22, yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Annette Bryn Parri.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 21: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a bydd y Gweinidog yn arwain honno a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 21: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 21: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Medi 19: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch,

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 14
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Gwenda Richards

Medi 21
10.00 a.m. – Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 28
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 14
10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 21
10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

Medi 28
10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 604 – Dydd Sul, 14 Medi, 2014

Ansicrwydd

Ddydd Iau, daw blynyddoedd o drafod ac ymgyrchu i'w benllanw yn yr Alban gyda phleidlais y Refferendwm dros Annibyniaeth. Rhoddwyd sylw mawr i'r Refferendwm ar deledu a radio ac yn y papurau newydd yr wythnosau diwethaf hyn. Ac er pwysiced yr achos ac er cymaint y diddordeb ynddo, mae'n rhaid cyfaddef na fu'r gwrando a'r gwylio a'r darllen yn rhwydd o gwbl am fod cymaint o'r cyflwyniadau wedi bod yn dueddol o blaid y garfan 'Na'. Dro ar ôl tro, methwyd â bod yn wrthrychol, ac mae'r adroddiadau wedi cychwyn gyda sylwadau negyddol am y ddadl o blaid Annibyniaeth, a llawer mwy o sylw a phwysigrwydd wedi ei roi i ddatganiadau'r garfan 'Na' ac i ddatganiadau gwleidyddion fel David Cameron. Mae'r diffyg gwrthrychedd a'r negyddiaeth ynghylch dadleuon y garfan 'Ie' wedi ei gwneud yn anodd goddef y trafod ar adegau.

Un peth digalon ynghylch y darlledu yw'r ffordd y bu llawer yn mynnu y byddant yn dweud 'Na' oherwydd yr ansicrwydd honedig a ddeuai yn sgil Annibyniaeth. Rhydd i bawb ei farn, wrth gwrs; ond yr hyn sydd wir yn siomedig yw'r ffaith i'r cyfryngau roi llonydd i bobl ddadlau fel hyn heb eu herio o gwbl. Rhoir yr argraff y bydd yna sicrwydd a diogelwch cynhennid o gadw pethau yn union fel y maent o fewn y Deyrnas Unedig ac y byddai Alban annibynnol yn golygu menter ac ansicrwydd. Mor rhwystredig fu gweld y farn hon yn cael ei phedlera heb ei chwestiynu o gwbl. Pryderon ariannol; cwymp y banciau; tlodi plant a banciau bwyd; cefnogaeth gynyddol i UKIP a'i galwad i'r Deyrnas Unedig gefnu ar y Gymuned Ewropeaidd; anghyfartaledd rhwng De-ddwyrain Lloegr a gweddill Lloegr a'r Deyrnas Unedig; pryderon ynghylch hiliaeth; ofn terfysgaeth; dyma rai yn unig o'r pethau y bu trafod mawr arnynt yng ngwledydd Prydain ers blynyddoedd, a'r cyfan yn dangos yr ansicrwydd gwirioneddol a fu'n blino'r gwledydd hyn cyhyd. Ond er hynny, fe ganiatawyd i'r garfan 'Na' roi'r argraff dwyllodrus a chelwyddog mai pethau a fyddai'n perthyn i Alban annibynnol yn unig yw ansicrwydd ac ansefydlogrwydd.

Y gwir wrth gwrs yw bod ansicrwydd yn rhan annatod o fywyd. Ni ŵyr neb beth all ddigwydd mewn un diwrnod. Gall amgylchiadau newid mewn eiliad. Gall pethau droi er gwell neu waeth yn gwbl annisgwyl. Ac ni allwn gymryd dim yn ganiataol; iechyd, swyddi, bywyd teuluol, cyfeillgarwch, tywydd, trefn cymdeithas, heddwch – ie, a hyd 'Yr Economi' – ansicr yw'r cyfan. Twyll yw dweud yn wahanol, ac yr ydym yn anonest â ni ein hunain ac â phobl eraill os rhown yr argraff y gallwn fod yn sicr o barhad y pethau hyn (mewn unrhyw wlad dan haul). Ond yn wyneb pob ansicrwydd, gelwir arnom i fentro mewn ffydd y cawn gymorth a nerth a chysur Duw yn wyneb y cyfan a ddaw. Y sicrwydd sydd gennym yw y bydd Duw yn ein cynnal a'n harwain, beth bynnag ein hamgylchiadau yn y byd ansicr hwn.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Ac yna, gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwenda Richards, Caernarfon. Diolch iddi am ei gwasanaeth a chroeso cynnes.

Byddaf yn arwain yr oedfa Gymun yn Llanberis am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd. Mae eich cydaelodau yn gweld eich colli.

Penblwydd Hapus

Dymunwn Benblwydd Hapus yn 90 oed i Mr Dafydd Roberts, Stryd Turner, Llanberis.

Llongyfarchiadau mawr iddo, a diolch am yr iechyd sy'n caniatau iddo ddal i ddod i'r oedfa yn Capel Coch bob bore Sul. Pob bendith i chi, Mr Roberts.

CIC

Cafwyd dechrau da i dymor newydd CIC nos Wener. Roedd yn braf gweld rhai o'r hen griw yn ôl rhai newydd wedi dod atom am y tro cyntaf gan ein bod yn croesawu plant Blwyddyn 6 i ymuno â ni. Byddwn yn cyfarfod bob pythefnos, ac felly cynhelir y cyfarfod nesaf nos Wener, Medi 26. Diolch yn fawr i Gwenno, Dafydd ac Andrew am eu help.

Pwyllgor Gofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch, am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Hydref 2 i drefnu ar gyfer y drefn newydd o fis Ionawr ymlaen pan fydd yr Ofalaeth yn cael ei hymestyn i gynnwys eglwysi Bethlehem, Talybont a Charmel, Llanllechid. Gobeithio bydd y dyddiad yn hwylus.

Henaduriaeth arbennig

Cynhelir Henaduriaeth Arbennig i weinidogion, blaenoriaid a swyddogion Henaduriaeth Arfon yng nghapel Berea Newydd, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos yfory, nos Lun, Medi 15 i gyflwyno Cynllun Strategaeth Diwygiedig Arfon cyn ei anfon i sylw'r Gymdeithasfa yn y Gogledd ym mis Hydref.

Gofynnir i'r eglwysi ofalu eu bod yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod.

Ysgol Sul

Mae'r Ysgol Sul yn Capel Coch yn ail ddechrau am 11.15 o'r gloch heddiw ac edrychir ymlaen at dymor da arall rhwng hyn a'r Nadolig.

Mae yna lyfrau newydd wedi eu cyhoeddi dros yr haf ar gyfer gwaith yr Ysgolion Sul ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn cymryd lle'r gyfres o werslyfrau sydd wedi para dros y tair blynedd diwethaf.

Mae yna ddeunydd ar gyfer gwersi'r plant dan 5 oed; plant 6–11 oed; a phobl ifanc.

Bydd cyfle i weld y llyfrau newydd a deunydd ychwanegol a fydd yn help i athrawon Ysgol Sul yn y nosweithiau a gynhelir gan y Cyngor Ysgolion Sul.

Gweler manylion llawn y nosweithiau hynny yn y stori nesaf.

Cyngor Ysgolion Sul a'r Panel Diogelwch

Bydd Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Panel Diogelwch Cydenwadol i gyflwyno'r gwerslyfrau newydd sydd i'w defnyddio yn yr Ysgol Sul eleni ac egluro'r gofynion newydd o ran diogelwch plant ac oedolion bregus i'r eglwysi.

Ceir cyflwyniad 15 munud gan y Parchg Aled Davies i'r gyfres newydd o werslyfrau ac adnoddau perthnasol eraill ar gyfer Ysgolion Sul a chlybiau plant.

Ac yna ceir cyflwyniad 45 munud gan Mrs Julie Edwards o'r Panel Diogelwch Cydenwadol i'r *Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus* a gyhoeddwyd eleni.

Mae dewis o ddyddiadau. Yr agosaf at-om ni yw'r un yng Nghaernarfon wrth gwrs ond nodir y lleoliadau eraill hefyd rhag ofn bod y dyddiadau hynny'n fwy hwylus.

Nos Iau, Medi 25:
Capel y Porth, Porthmadog
Nos Lun, Medi 29:
Capel Lon y Felin, Llangefni
Nos Fawrth, Medi 30:
Coleg y Bala, Y Bala
Nos Fercher, Hydref 1
Capel Salem, Caernarfon

Bydd y cyflwyniad cyntaf am 7.30 o'r gloch, a bydd y cyfarfod yn gorffen am 9.00 o'r gloch.

Mae gwahoddiad arbennig i athrawon Ysgol Sul a swyddogion eglwysi i fynd i'r cyfarfodydd hyn.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Efe fore Gwener. Trefnwyd amser newydd i'r Cyfarfod Gweddi am na fydd yn bosibl ei gynnal ar nos Fercher ar hyn o bryd gan fod Andrew yn Llyn ac Eifionydd gyda mudiad Trobwynt ganol wythnos. Wrth symud y Cyfarfod Gweddi i fore Gwener penderfynwyd newid y drefn hefyd a'i gynnal bob wythnos yn hytrach na phob mis, yn nhy Andrew (Cartref, Caeathro) rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch bob bore Gwener.

Mae croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos. Dowch fore Gwener nesaf, os medrwch, neu unrhyw fore Gwener arall yn ystod tymor yr ysgol.

Llanw

Mae gwyl Gristnogol LLANW wedi dod yn wyl boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi ei chynnal yn Llangrannog a Chei Newydd a Dinbych y Pysgod cyn hyn. Mae trefnwyr LLANW yn cynnal dathliad penwythnos ym mis Medi i roi blas ar yr wyl i rai na fu ynddi a chyfle i rai a fu